# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2015** |
| Amser: | **09.00 – 11.53** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2959**

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Christine Chapman AC (Cadeirydd)**
**Peter Black AC**
**Alun Davies AC**
**Janet Finch-Saunders AC**
**Suzy Davies AC (yn lle Mark Isherwood AC)**
**Lynne Neagle AC (yn lle Mike Hedges AC)**
**Gwyn R Price AC**
**John Griffiths AC (yn lle Gwenda Thomas AC)**
**Rhodri Glyn Thomas AC**

Tystion:

**Ken Skates AC, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Gwilym Hughes**
**Eifiona Williams, Llywodraeth Cymru**

Staff y Pwyllgor:

**Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)**
**Chloe Davies (Dirprwy Glerc)**
**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Robin Wilkinson (Ymchwilydd)**

Trawsgrifiad

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gwenda Thomas AC, Mike Hedges AC, Jocelyn Davies AC a Mark Isherwood AC. Dirprwyodd John Griffiths AC, Lynne Neagle AC, Bethan Jenkins AC a Suzy Davies AC ar eu rhan yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 8 - y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Gwilym Hughes, Prif Arolygydd, Cadw
- Eifiona Williams, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

2.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu'r canlynol:

- Y sail ar gyfer yr amcangyfrifiad o gostau o ran gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i greu a chynnal rhestrau lleol o asedau hanesyddol;
- Yr amserlen ar gyfer adroddiad y Panel Arbenigol ar yr adolygiad mewn perthynas â darparu amgueddfeydd yn y dyfodol a'u cynaliadwyedd;
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad yn 2013 ar Bolisi Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru; sef y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i opsiynau o ran cyflwyno system sy'n golygu y bydd y perchennog newydd yn cael canllawiau clir gan yr awdurdod lleol ynghylch y cyfyngiadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r statws rhestredig, a hynny mewn achosion lle mae chwiliadau awdurdod lleol yn dangos bod adeilad yn rhestredig a/neu mewn ardal gadwraeth;
- Manylion am y dadansoddiad o'r wyth cytundeb partneriaeth treftadaeth sydd wedi'u treialu yn Lloegr.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): trafod y dystiolaeth a gafwyd yn sesiwn 8 a thrafod y materion allweddol

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ac yn ystyried y materion allweddol, er mwyn llywio ei adroddiad Cyfnod 1.

## 6 Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: dulliau cymunedol o drechu tlodi – trafod y papur cwmpasu

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu a chytuno ar ei ymagwedd o ran yr ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: dulliau cymunedol o drechu tlodi.

## 7 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): trefn y drafodaeth ar gyfer trafodion Cyfnod 2

7.1 Trafododd a chytunodd y Pwyllgor ar drefn y drafodaeth ar gyfer trafodion Cyfnod 2 ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): adrannau 7 i 29, adrannau 31 i 88, adrannau 90 i 101, adrannau 103 i 119, adrannau 121 i 131, adrannau 133 i 145, adrannau 147 i 255, Atodlenni 2 i 11, adran 30, adran 89, adran 102, adran 120, adran 132, adran 146, adrannau 1 i 4, Atodlen 1, adrannau 5 i 6, Teitl hir.

## 8 Trafod y flaenraglen waith

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.